

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET
CABINET MEMBER'S DECISION NOTICE**

PWNC/ SUBJECT:

**Adroddiad Effaith Lleol ar gyfer cynllun pwmpio a storio Glyn Rhonwy /
*Local Impact Report for the Glyn Rhonwy pump storage scheme.***

AELOD CABINET/ CABINET MEMBER:

**Y Cyngorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Rheoleiddio /
*Cllr Dafydd Meurig, Regulatory Cabinet Member.***

PENDERFYNIAD/ DECISION

1. Rhoi cymeradwyaeth i gyflwyno Adroddiad Effaith Lleol ar ran y Cyngor i'r Arolygiaeth Gynllunio, fel rhan o broses Gorchymyn Caniatâd Datblygu yn ymwneud a chynllun pwmpio a storio Glyn Rhonwy

1. To approve the submission of the Local Impact Report on behalf of the Council to the Planning Inspectorate, as part of the Development Consent Order process in relation to the Glyn Rhonwy Pump Storage Scheme.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD/ REASONS FOR THE DECISION

2. Yn unol â gofynion Deddf Cynllunio 2008, gofynnir i awdurdodau lleol perthnasol, lunio Adroddiad o Effaith Lleol (AELI) pan fo prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn cael ei gyflwyno a'i dderbyn ar gyfer ystyriaeth i'r Arolygiaeth Gynllunio (yr Awdurdod Archwilio). Ymgynghorai yw'r awdurdod lleol yn y broses yma ac mae'r AELI yn ddull ffurfiol i'r awdurdod lleol nodi effeithiau ardrwriad tebygol y datblygiad arfaethedig ar ardal yr awdurdod.

3. Yn dilyn cwblhau'r broses archwilio, mi fydd yr Awdurdod Archwilio yn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol a fydd yn penderfynu os caniateir y prosiect trwy gyflwyno Gorchymyn Caniatâd Datblygu (GCD). Wrth wneud penderfyniad, mi fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried unrhyw Adroddiad Effaith Lleol a gyflwynir. Mae'r AELI felly'n elfen bwysig o'r wybodaeth i'w ystyried gan yr Arolygydd Cynllunio er mwyn gwerthuso'r datblygiad arfaethedig.

2. In accordance with the requirements of the Planning Act 2008, local authorities are required to produce a Local Impact Report (LIR), when a development of National Significance is submitted to the Planning Inspectorate (the Examining Authority). The local authority is a consultee in this process and the LIR provides the opportunity for the local authority to identify any likely local impacts of the proposed development on the area of the authority.

3. *Following completion of the examination process, the Examining Authority will make a recommendation to the Secretary of State, who will decide whether to approve the development by issuing a Development Consent Order. In coming to a decision, the Secretary of State will consider the Local Impact Report that has been submitted. The LIR is therefore an important part of the information that the Planning Inspector will have to consider in assessing the proposed development.*

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL/ RELEVANT CONSIDERATIONS

4. Yn yr achos yma, bwriad cwmni “Snowdonia Pumped Hydro” yw creu prosiect fyddai’n defnyddio dwy chwarel lechi segur er mwyn adeiladu cyfleuster pwmpio a storio trydan fyddai’n cynhyrchu hyd at 99.9MW o drydan.

5. Rhaid pwysleisio fod cais cynllunio eisoes wedi ei gymeradwyo gan Gyngor Gwynedd ar gyfer cynllun storfa bwmpio ar y safle hwn, o dan ofynion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Roedd y cynllun hwn ar gyfer cynhyrchu 49.9MW o drydan, sef swm sydd o dan y trothwy yr ystyrir yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol. Ystyriwyd fod y datblygiad yn cydymffurfio gyda’r Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd yn ogystal â Chanllawiau Cynllunio Atodol mabwysiedig y Cyngor. Rhoddwyd ystyriaeth lawn yn ogystal i bolisïau a chanllawiau cenedlaethol megis Polisi Cynllunio Cymru ag amrywiol Nodiadau Cyngor Technegol.

6. Mae egwyddor y datblygiad eisoes wedi cael ei ystyried a’i gymeradwyo trwy’r caniatâd a roddwyd eisoes gan y Cyngor oedd yn ddarostyngedig i nifer o amodau cynllunio perthnasol, er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau lleol posib. Mae’r AELI yn cydnabod fod egwyddor y datblygiad sydd destun y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu’r wedi ei sefydlu, ond bod angen sicrhau fod unrhyw effeithiau lleol yn sgil y datblygiad yma’n cael eu lliniaru os caniateir y datblygiad. Mae’r AELI wedi ei atodi i’r adroddiad hwn.

4. *In this case the Snowdonia Pumped Hydro Company proposes to use 2 dormant quarries in order to build an electricity pump storage facility that would generate up to 99.9MW of electricity.*

5. *It must be stressed that Gwynedd Council has already granted planning permission for a pump storage scheme on this site, under the provisions of the Town and Country Planning Act 1990. That scheme was for the generation of 49.9MW of electricity, which is under the threshold for schemes classed as development of National Significance. It was considered at the time that the development complied with the adopted Gwynedd Unitary Development Plan and various Supplementary Planning Guidance. Full consideration was also given to national policies and guidance such as Planning Policy Wales and the various Technical Advice Notes.*

6. *The principle of the development has already been established and supported by the Council, following the planning permission that was granted subject to a number of relevant planning conditions in order to mitigate any likely local impacts. The LIR acknowledges that the principle of the development which forms the Development Consent Order application, has already been established, but that there is a need for any likely local impacts to be mitigated if the application is approved. The LIR is attached to this report.*

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL/ VIEWS OF STATUTORY OFFICERS

1. Y Prif Weithredwr/ *Chief Executive*:- “Dim i’w ychwanegu/ *Nothing to add*”

2. Swyddog Monitro/ *Monitoring Officer*:-

Dim sylw o ochr priodoldeb/ *No comments with regards to propriety*

3. Prif Swyddog Cyllid/ *Chief Finance Officer*:-


Dim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol. / *Nothing to add from a financial propriety perspective*

BARN YR AELOD LLEOL/ VIEW OF LOCAL MEMBER

Mater i’r awdurdod yw’r AELI / *The LIR is a matter for the Authority*

LLOFNOD / *SIGNED*

DYDDIAD/ *DATE*



06.04.2016



CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

ADRODDIAD EFFAITH LLEOL

LOCAL IMPACT REPORT

Cynllun pwmpio a storio Glyn Rhonwy

Glyn Rhonwy pumped storage scheme

Cyf. Arolygiaeth Gynllunio/PINS ref: EN010072

Cyf. Gwynedd ref: C15/1212/15/YM

Cyngor Gwynedd/Gwynedd Council, Adran Rheoleiddio/Regulatory Department, Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd /Planning and Environment Service Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5AA.

Chwefror/February 2016

1. PWRPAS A FFURF ADRODDIAD EFFAITH LLEOL

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ofynnol pan fo prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (Developments of National Significance) wedi ei gyflwyno a'i dderbyn ar gyfer ystyriaeth i'r Arolygiaeth Gynllunio (yr Awdurdod Archwilio). Yn dilyn cwblhau'r broses archwilio, fe fydd yr Awdurdod Archwilio yn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol a fydd yn penderfynu os caniateir y prosiect trwy gyflwyno "Development Consent Order" (DCO). Yn yr achos penodol yma, mae cais wedi ei gyflwyno sydd yn ymwneud a phrosiect i ddefnyddio dwy chwarel lechi segur er mwyn adeiladu cyfleuster pwmpio a storio trydan fyddai'n cynhyrchu hyd at 99.9MW o drydan.

1.2 Mae'r broses o benderfynu'r math yma o geisiadau yn cael ei drefnu oddi mewn i Ddeddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd). Yn unol a'r rheolaethau, mae Cyngor Gwynedd (CG) fel yr awdurdod lleol perthnasol, yn cael gwahoddiad i gyflwyno Adroddiad Effaith Lleol (AEL). Mae rhan 60(3) o'r Ddeddf, yn cyfeirio yn benodol at ofynion sydd yn benodol yn ymwneud ag AEL ag yn diffinio'r ddogfen fel " adroddiad ysgrifenedig gyda manylion am effaith tebygol y datblygiad arfaethedig ar ardal yr awdurdod (neu unrhyw ran o'r ardal)". Wrth gyhoeddi'r ddogfen yma, mae'n rhaid i'r Awdurdod ystyried cynnwys Nodyn Cyngor 1 yr Arolygiaeth Gynllunio: Adroddiadau Effaith Lleol (fersiwn 2 Ebrill 2012).

1.3 Mae Nodyn 1 yn datgan, " fe ddylai Awdurdodau Lleol drafod unrhyw destun sydd yn cael ei ystyried yn berthnasol o ran effaith y datblygiad arfaethedig ar eu hardal...rhaid i'r AEL gael ei ddefnyddio gan Awdurdodau Lleol fel ffordd o adrodd yn llawn i'r Awdurdod Archwilio ar wybodaeth a thystiolaeth perthnasol lleol...nid oes angen i'r AEL ailadrodd yr Asesiad Effaith Amgylcheddol". Ni chredir ychwaith, y dylid ailadrodd gwybodaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r cais. Mae'r Nodyn yn ymhelaethu, " fe ddylid tynnu sylw at wybodaeth a phrofiad lleol. Esiamplau o hyn fyddai tystiolaeth leol am lifogydd, materion cymdeithasol ag economaidd o safbwynt lleol neu wybodaeth lleol ynglŷn a phatrymau teithio i gyfleusterau cymunedol".

1.4 Nodir hefyd fod angen i'r adroddiad "gynnwys datganiad sydd yn cyfeirio at effaith cadarnhaol, niwtral neu negyddol yn lleol...fe fydd yr Awdurdod Archwilio yn ystyried yr effeithiau lleol gan gynnwys yr effeithiau sydd yn cael eu cyfeirio atynt yn benodol o fewn yr AEL".

1.5 Rhaid i'r adroddiad asesu'r datblygiad arfaethedig o ran ei gydymffurfiaeth gyda pholisïau a chanllawiau lleol a chynnwys barn yr Awdurdod ynglŷn a'r DCO.

2. DISGRIFIAD O'R SAFLE A'R AMGYLCHEDD LEOL

2.1 Mae safle'r datblygiad arfaethedig gyfan yn mesur oddeutu 59.3 hectar ag yn safle eang a gwasgaredig. Mae'r safle yn ymestyn o diroedd sydd yn ymylu â Llyn Padarn ar waelod Dyffryn Peris i fyny ochrau'r Dyffryn tuag at leoliad Chwarel Fawr ar lethrau mynyddig Cefn Du, gwahaniaeth o oddeutu 300m (wedi ei selio yn frâs ar ddatwm mapiau O.S.). Mae safle'r datblygiad arfaethedig yn bennaf oddi mewn i chwareli a gweithfeydd llechi hanesyddol sydd bellach yn segur, yn ogystal a safleoedd cyn ddiwydiannol, coedwig fasnachol a thir pori amaethyddol, sydd yn gymysgedd o diroedd preifat a thir y goron.

2.2 Mae'r lleoliad oddeutu 1.5 cilomedr i'r gogledd-orllewin o bentref Llanberis ag oddeutu 11 cilomedr i'r de-ddwyrain o dref Caernarfon. Mae'r safle gyfan oddi mewn Ardal Cadwraeth y Tirlun ag Ardal Tirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Dinorwig. Yn ogystal, mae o fewn pellteroedd amrywiol i'r dynodiadau canlynol (ffigyrau mynegol yw'r canlynol o safbwyntiau cyffredinol):

- Ffin Parc Cenedlaethol Eryri – rhwng 0.9 cilomedr a 1 cilomedr yn y manau agosaf
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) ag Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) Afon Gwyrfaï a Cwellyn – 2.3 cilomedr
- SSSI Cwm Dwythwch – 1.8 cilomedr
- SSSI Llyn Padarn – mae lleoliad man echdynnu/rhyddhau yn uniongyrchol i mewn i ran o Lyn Padarn

2.3 Mae cyffordd lydan a safonol bresennol yn arwain i mewn i safle Glyn Rhonwy oddi ar y A4086 ar gyrion pentref Llanberis, gyda ffyrdd safonol yn arwain trwy'r safle at lwyfannau pwrpasol sydd eisoes wedi eu creu ar gyfer defnydd diwydiannol. Mae'r ffordd sydd yn arwain at Chwarel Fawr sef tuag at ran uchaf y safle, yn dynesu o gyfeiriad Waunfawr ag yn ffordd gul fynyddig. Mae ffordd dosbarth 3 a adnabyddir fel Ffordd Clegir yn rhedeg trwy ran o'r safle.

2.4 Er mai ardal wledig yw lleoliad y datblygiad arfaethedig hwn, fe welir fod nifer o adeiladau o amrywiol ddefnydd yn wasgaredig ag yn gymharol agos i rannau o ffiniau'r datblygiad arfaethedig gan gynnwys tai preswyl, safle diwydiannol cwmni Siemens, maes carafanau, gwestai, busnesau gwely a brecwast a thai bwyta.

2.5 Mae safle Glyn Rhonwy yn safle sydd wedi ei ddynodi yn ffurfiol fel safle ail-ddatblygu yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd.

2.6 Defnyddiwyd rhannau o'r safle fel storfa bomiau/arfau yn ystod ac wedi'r ail ryfel byd, mae'r prif storfa wedi ei leoli yn gyfochrog gyda rhan o derfyn y gorchymyn hwn sef tu allan i ffin y datblygiad fel y'i diffinir.

3. MANYLION Y DATBLYGIAD

3.1 Mae manylion y cais ei hun yn cael ei ddisgrifio yn fanwl o fewn dogfennau amrywiol a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd gan gynnwys y Datganiad Amgylcheddol, er hynny, rhoddir yma, amlinelliad o'r bwriad.

3.2 Mae'r datblygiad arfaethedig yma yn golygu adeiladu, gweithredu a chynnal cynllun storfa bwmpio hydro-electrig 600MWh gyda allbwn pŵer 99.9MW.

3.3 Yn syml, mae'r cynllun yn golygu datblygu'r elfennau canlynol :

- Creu cronfa uchaf – Chwarel Fawr
- Creu cronfa isaf – Glyn Rhonwy
- Codi gorsaf bŵer – i gynnwys pwmp/tyrbeini gyfunol o fewn safle Glyn Rhonwy
- 'Penstock' – pibell o dan y ddaear i gysylltu'r cronfa uchaf gyda'r gorsaf bŵer
- 'Tailrace' – pibell o dan y ddaear i gysylltu'r gorsaf bŵer gyda'r gronfa isaf
- Gorlifan – pwynt arllwysiad o'r gronfa uchaf a phwynt arllwysiad/echdyniad i neu allan o'r gronfa isaf
- Adeilad pwmpio – ar gyfer echdynnu dŵr o Lyn Padarn yn ystod cyfnod adeiladu, ar dir ger y Llyn

3.4 Er eglurdeb (fe nodir yn fanylach y manylion ymhellach yn yr adroddiad hwn), mae cais cynllunio eisoes wedi ei gymeradwyo gan Gyngor Gwynedd ar gyfer cynllun storfa bwmpio ar y safle hwn o dan ofynion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (DCGT). Roedd y cynllun hwn ar gyfer cynhyrchu 49.9MW o drydan sef swm sydd o dan y trothwy na ystyrir yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol.

3.5 Nid oes newid ffisegol amlwg rhwng yr hyn sydd eisoes wedi ei ganiatáu gan Gyngor Gwynedd a'r hyn a fwriedir yn awr. Y gwahaniaeth amlwg yw mai dau dyrbein 24.95MW a fwriadwyd ble nawr mae eu maint yn cynyddu i ddau dyrbein 49.95MW. Mae newid arall o safbwynt ehangu ffiniau'r safle datblygu o'r hyn a ganiatwyd yn flaenorol oherwydd yr angen i sicrhau fod tir digonol ar gael fel mesur ragofalus yn ystod y cyfnod adeiladu ag er hwyluso mynediad addas i rannau o'r safle.

3.6 Ni gyflwynwyd cynlluniau manwl fel rhan o'r cais DCGT mewn perthynas a'r adeiladau cysylltiol megis y gorsaf bŵer ond yn hytrach fe ategwyd amod yn gofyn am fanylion unrhyw adeilad i'w codi i'w cyflwyno er mwyn eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol. Mi fyddai lleoliad y gorsaf bŵer ar lecyn neu lwyfan pwrpasol sydd eisoes wedi ei lunio fel rhan o waith paratoi safle Glyn Rhonwy ar gyfer ei ail-ddatblygu.

Cynllun Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy: Adroddiad Effaith Lleol

Cyngor Gwynedd Chwefror 2016

3.7 Mae nifer o amodau wedi eu gosod gyda chaniatâd DCGT er mwyn cytuno ar reoli elfennau o'r datblygiad arfaethedig, megis 'Datganiad Dull Adeiladu' fel rhan o'r "Construction Environmental Management Plan", 'Cynllun Rheoli Trafnidiaeth', 'Cytundeb Traffig Anghyffredin'. Credir fod modd rheoli cyfnod adeiladu i raddau trwy drefniant tebyg fel fod elfennau yn datblygu 'gam wrth gam'. Yn ôl gwybodaeth a gyflwynwyd gan y datblygwr, rhagwelir mai cyfnod adeiladu'r prosiect fyddai 3/4 mlynedd.

3.8 Mater sydd wedi creu cryn bryder yn lleol yn ystod penderfynu cais DCGT yw sut gysylltiad trydan fydd o'r safle i'r rhwydwaith. Barn y datblygwr yw mai o dan ddaear y dylid creu'r cyswllt hwn ond mai cyfrifoldeb y gweithredwr rhwydwaith ardal sef SP Manweb fydd yr elfen hwn.

3.9 Mi fyddai mynediad i brif safle Glyn Rhonwy trwy gyffordd safonol bresennol oddi ar yr A4086. Cytunwyd ar drefniant teithio cais DCGT ynglŷn a'r fynediad at y gronfa uchaf (Chwarel Fawr) sef fod trafndiaeth yn dod o gyfeiriad Waunfawr ar hyd ffordd di-ddosbarth bresennol sy'n cael ei adnabod yn lleol fel Ffordd Cefn Du.

4. HANES CYNLLUNIO PERTHNASOL

4.1 Mae hanes cynllunio hirfaith yn ymwneud yn benodol ar ran Glyn Rhonwy o'r safle gan gynnwys caniatadau cymharol ddiweddar i ddarparu seilwaith a chreu llwyfannau ar gyfer defnydd diwydiannol. Fe nodir hefyd fod cynlluniau uchelgeisiol wedi eu trafod yn y gorffennol er mwyn datblygu'r safle ar gyfer defnydd twristaidd/hamdden megis pentref gwyliau, canolfan sgïo dan dô, canolfan beicio mynydd.

4.2 Ond yn berthnasol yn yr achos yma yw'r cais sydd wedi ei gyfeirio ato yn flaenorol yn yr adroddiad hwn sef cais a gyflwynwyd i Gyngor Gwynedd o dan Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn Hydref 2012 gyda chyfeirnod C12/1451/15/LL sef:

- Datblygiad storfa bwmp 49.9MW i gynnwys cronfa uchaf yn Chwarel Fawr gyda argae cysylltiol, cronfa isel yng Nghlyn Rhonwy gyda argae cysylltiol, adeilad i gynnwys tyrbeini, gwaith peirianyddol cysylltiol gan gynnwys creu tomenni llechi newydd a gwyro priffyrdd.

4.3 Cynhaliwyd trafodaethau ffurfiol cyn cyflwyno'r cais hwn ag yn unol a gofynion Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Aseiad Effaith Amgylcheddol) (Lloegr a Cymru) 1999 lluniwyd barn gwmpasu gan fod y Cyngor o'r farn y byddai'r bwriad yn ddatblygiad a fyddai yn disgyn o fewn disgrifiad a gofynion penodol i'w gymhwyso i fod yn ddatblygiad fyddai angen Aseiad Effaith Amgylcheddol.

4.4 Cyflwynwyd cais llawn gan gynnwys Aseiad Effaith Amgylcheddol ar gyfer ystyriaeth. Cynhaliwyd ymgynghoriaeth lawn ar y cais gan dderbyn cryn nifer o sylwadau gan gynnwys asesiadau manwl gan ymgynghorwyr statudol gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Dwr Cymru, ac yn y blaen. Rhyddhawyd caniatâd cynllunio ar y 19eg o Hydref 2014 yn dilyn cymeradwyaeth o'r cynllun gan bwyllgor cynllunio Cyngor Gwynedd.

4.5 Ategwyd amod ar y caniatâd hwn yn rhoddi 5 mlynedd o ddyddiad y caniatâd i gychwyn ar y datblygiad gan ategu y dylid anfon rhybudd ysgrifenedig o ddyddiad cychwyn y gwaith o leiaf 14 diwrnod o flaen llaw. Mae'r datblygiad fel a ganiatawyd felly yn parhau yn fyw ag fe ellir ei weithredu, yn unol a'r gofynion ar unrhyw amser o fewn 5 mlynedd i ddyddiad y caniatâd.

5. CYNLLUN DATBLYGU STATUDOL/DOGFENNAU POLISI LLEOL

5.1 Y cynllun datblygu cyfredol ar gyfer yr ardal yma yw Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (CDUG), a fabwysiadwyd yn ystod Gorffennaf 2009.

5.2 Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn ar hyn o bryd yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â fersiwn adneuo o'r Cynllun yn ystod misoedd Chwefror/Mawrth 2015. Mae'r ddau awdurdod yn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus yma gyda'r gobaith o gyflwyno'r cynllun i Lywodraeth Cymru ar gyfer ystyriaeth yn gynnar yn 2016.

5.3 Cefnogir CDUG gan nifer o ddogfennau ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) mabwysiedig. Credir mai'r dogfennau perthnasol yn yr achos yma yw:

- Ymrwymadau Cynllunio (Tachwedd 2009)
- Cymeriad y Tirwedd (Tachwedd 2009)
- Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Tachwedd 2009)
- Safleoedd Bywyd Gwyllt (Ebrill 2010)
- Briffiau Datblygu: ADD Caernarfon (Tachwedd 2009)

5.4 Nodir yma, y bydd y CCA uchod yn cael eu adolygu a'u diweddarau fel yn briodol fel rhan o broses mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

6. DYNODIADAU A NODWEDDION YR ARDAL LEOL

Safleoedd wedi eu dynodi

6.1 Parc Cenedlaethol Eryri – mae ffin y Parc oddeutu 0.9 i 1 km o ran agosaf ffin y datblygiad arfaethedig. Mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi ei sefydlu ers 1951 ag yn un o dri Parc Cenedlaethol yng Nghymru ag sydd yn ymestyn dros 2,171 km sgwâr yn ei gyfanrwydd.

6.2 Afon Gwyrffai a Cwellyn (SSSI & SAC) – llifai afon Gwyrffai oddeutu 1.8 km i'r de-orllewin o ran agosaf ffin y datblygiad arfaethedig gyda Llyn Cwellyn ymhellach i'r de. Mae arwynebedd y dynodiad yn ei gyfanrwydd yn mesur 326.1 ha ag yn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig oherwydd ei nodweddion daearegol a bywydegol. Mae isafon Nant y Betws yn llifo trwy ran o safle'r datblygiad arfaethedig ger Chwarel Fawr ag yn bwydo i mewn i Afon Gwyrffai yn is i lawr y dyffryn. Mae lleoliad Llyn Cwellyn a tharddiad afon Gwyrffai yn Llyn y Gadair o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol.

6.3 Cwm Dwythwch (SSSI) – dyma safle sydd wedi ei leoli oddeutu 1.8 km i'r de-ddwyrain o ran agosaf ffin y datblygiad arfaethedig gyda arwynebedd o 385 ha. Dynodir y Cwm yma oherwydd ei nodweddion a gwerth daearegol arbennig. Gorweddai'r safle oddi mewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol.

6.4 Llyn Padarn (SSSI) - mae lleoliad elfen echdynnu/rhyddhau dŵr y datblygiad arfaethedig, yn uniongyrchol i mewn i Llyn Padarn. Mae'r safle yn mesur 116.7 ha ag yn llyn o arwyddocâd arbennig oherwydd ei nodweddion biolegol a daeareg sydd o bwys cenedlaethol. Mae'n un o dri safle yn unig yng Nghymru ble mae pysgodyn y Torgoch yn trigo.

6.5 Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Dinorwig – mae Dyffryn Peris gyfan o fewn y dynodiad yma gan gynnwys Llyn Padarn a llethrau Glyn Rhonwy i fyny at Chwarel Fawr. Mae'n ymestyn o ochr gogledd orllewin Yr Wyddfa tuag at Afon Menai i gyfeiriad gogledd orllewinol. Mae'n cynnwys olion gwasgaredig ag amrywiol o gyfnod yr oes haearn ond yn bennaf ag amlycaf, gwelir weddillion ag olion helaeth y diwydiant llechi yn ystod y 19eg a'r 20fed ganrif.

6.6 Ardal Gwarchod y Tirwedd – er fod y dynodiad yma yn anstatudol, rhoddir ystyriaeth i effaith cynigion o fewn yr ardaloedd hyn oherwydd polisi penodol sydd wedi ei lunio o fewn CDUG sydd yn diogelu a chyfoethogi'r ardaloedd yma. Mae arweiniad ar y mater yma yn cael ei gynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru (argraffiad 7 2014), yn benodol paragraff 5.3.11, sydd yn datgan *“Dylai **dynodiadau anstatudol**, megis Ardaloedd Tirwedd Arbennig neu Safleoedd o Ddiddordeb o ran Cadwraeth Natur, gael eu seilio yn gadarn ar asesiad gwyddonol ffurfiol o werth y safle o ran cadwraeth natur, tirwedd neu ddaeareg. Gall dynodiadau anstatudol lleol ychwanegu gwerth at y broses gynllunio, yn enwedig os oes lle ynddynt i gyfranogiad gan y gymuned ac os ydynt yn adlewyrchu gwerthoedd cymunedol..”*

7. YSTYRIAETH O EFFAITH A DIGONOLRWYDD YMATEB

7.1 Mae'r bennod yma yn ymgais i adnabod yr ystyriaethau perthnasol ar gyfer ei gynnwys oddi mewn i'r Adroddiad Effaith Lleol. Mae nifer fawr o ystyriaethau sy'n ymberthyn i'w gilydd nid yn unig oddi mewn i'r ardal gyfagos ond hefyd ymhellach, yn sicr felly o ran ffiniau Gwynedd ag hefyd i raddau, oddi mewn Gogledd Cymru., sef:

- Egwyddor y datblygiad
- Effaith gweledol/tirlun
- Ansawdd allyriadau aer, sŵn a dirgryniad
- Ecoleg a Bioamrywiaeth
- Traffig a Thrafnidiaeth
- Effaith economaidd-gymdeithasol (gan gynnwys cyflogaeth i'r dyfodol o fewn yr ardal leol ag yn ehangach)
- Halogi tir
- Treftadaeth diwylliannol ag archeolegol

7.2 Egwyddor y datblygiad

Polisi Lleol

7.2.1 Credir fod ystyriaeth llawn wedi ei roi i ofynion a chydymffurfiaeth gyda chriteria polisiau mabwysiedig lleol wrth benderfynu'r cais cynllunio blaenorol a benderfynwyd gan Gyngor Gwynedd trwy'r DCGT (gweler adroddiad pwyllgor cynllunio: (**ATODIAD 1**)).

7.2.2 Er hynny, cydnabyddir fod angen cyfeirio at ag ystyried polisiau lleol fel rhan o'r broses o lunio Adroddiad Effaith leol. Mae polisi C6 yn datgan 'caniateir cynigion sy'n creu cyfleoedd cyflogaeth...ar safle ailddatblygu Glyn Rhonwy os gellir sicrhau bod y datblygiad yn cyd-fynd â chyfres o feini prawf..' tra fod polisi D5 yn datgan 'mewn achosion eithriadol, caniateir lleoli datblygiadau diwydiannol ar safleoedd heb eu dynodi...os oes anghenion lleoli arbennig gwirioneddol nad ellir eu diwallu ar safle diwydiannol' (yn amlwg yn berthnasol ar gyfer ardaloedd y datblygiad arfaethedig na leolir oddi mewn i ffiniau ardal ailddatblygu Glyn Rhonwy). Mae polisi C27: Cynlluniau ynni adnewyddadwy a chynaliadwy, yn cyfeirio at ystyriaethau'r Cyngor o safbwynt cynigion am gynlluniau ynni adnewyddadwy ag fe greidir fod gweddill y polisiau a ystyriwyd fel rhan o'r broses DCGT (**ATODIAD 1**) yn llunio a chadarnhau'r fframwaith a fu'n berthnasol wrth ystyried ag asesu nid yn unig y cais cynllunio DCGT blaenorol, ond holl gynigion datblygu a dderbynir gan y Cyngor.

Cynllun Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy: Adroddiad Effaith Lleol

Cyngor Gwynedd Chwefror 2016

7.2.3 O fewn y cyd destun polisi ehangach, mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd ail ddatblygu safleoedd a ddatblygwyd o'r blaen, ag yn benodol, y pwyslais sydd wedi ei roi ar safle Glyn Rhonwy yn ei rôl fel Safle Datblygu Strategol. Gan hynny, mae'r Cyngor yn gefnogol i'r datblygiad arfaethedig yn ddarostyngedig i archwiliad trylwyr o effaith y datblygiad a'i gydymffurfiaeth gyda gofynion polisiâu eraill CDUG, yn arbennig felly yn nhermau ei effaith ar y tirlun ag ar fwynderau cyffredinol yr ardal.

7.3 Effaith gweledol/tirlun

Polisi Lleol

7.3.1 Polisi B12: gwarchod tirweddau, parciau a gerddi hanesyddol – gwarchod tirweddau, parciau a gerddi hanesyddol arbennig yng Nghymru rhag datblygiadau a fyddai'n achosi niwed arwyddocaol i'w cymeriad, eu hedrychiad neu eu gosodiad.

Prif ystyriaethau lleol: effaith ar y tirlun

7.3.2 Penderfynodd Cyngor Gwynedd ar y cyd gyda Chyngor Ynys Môn a Pharc Cenedlaethol Eryri, gomisiynu cwmni Gillespies i lunio Asesiad Capasiti a Sensitifrwydd y Tirlun (Landscape Sensitivity and Capacity Assessment). Fe'i gyhoeddwyd yn Ebrill 2014 mewn ymateb i bwysau cynyddol ar y tirlun, i warchod a tirluniau mwyaf sensitif a nodedig rhag datblygiadau anaddas ag i annog dull positif o ymateb i ddatblygiad mewn lleoliad priodol ag i raddfa derbyniol. Yn benodol, mae'r asesiadau wedi eu gwneud mewn perthynas a'r math canlynol o ddatblygiadau: ynni gwynt, datblygiadau solar, gwifrau uwchben, mastiau ffonau symudol a pharciau carafanau sefydlog.

7.3.3 Er na roddwyd ystyriaeth i'r ddogfen yma fel rhan o broses penderfynu'r cais DCGT ag nad yw yn gwbl briodol oherwydd mai ystyriaeth i fath gwahanol o ddatblygiadau a wneir, credir y gellid cyfeirio at ei gynnwys yn yr achos yma oherwydd fod y ddogfen yn rhestru nodweddion penodol ardaloedd. Mae ardal yr asesiad yn cynnwys safle'r datblygiad arfaethedig yn ei gyfanrwydd er nodir yma fod ardal yr asesiad ei hun yn ymestyn dros ardal ehangach:

- Tirlun uwchdir ar raddfa canolig/uchel ar gyrion Eryri
- Ardaloedd eang yn cynnwys dylanwad amlycaf dyn yn yr ardal sef gweithfeydd llechi a thomeni segur sydd o ddiddordeb diwylliannol
- Patrwm anheddiad gwasgaredig gyda ardaloedd o dir uchel yn ardaloedd tenau eu poblogaeth, yn bennaf gwelir fod cymunedau chwarelyddol wedi cronni ar waelod y dyffrynnoedd
- Mae teimlad o bellenigrwydd a thawelwch yn amrywio ar draws yr ardal
- Rhoddir asesiad 'HIGH – OUTSTANDING' gan LANDMAP

7.3.4 Mae ardal y datblygiad arfaethedig yn gymysgedd hynod ddiddorol o ran y tirwedd gan fod iddo nodweddion amrywiol o safbwynt tirlun ucheldir naturiol, tirlun diwydiannol yn gysylltiedig a'r diwydiant llechi a chynefinoedd gwasgaredig. Yn amlwg mae'r tirlun o safbwynt yr elfen diwydiannol wedi bod yn segur ers degawdau er fe welir fod rhannau o safle Glyn Rhonwy ei hun wedi ei ddatblygu yn fwy diweddar trwy osod seilwaith ffurfiol a

Cynllun Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy: Adroddiad Effaith Lleol

Cyngor Gwynedd Chwefror 2016

chreu llecynnau ffurfiol ar gyfer ail ddatblygiad ynghlwm a statws y safle fel ardal ail-ddatblygu. O fewn ardal eang Glyn Rhonwy, gwelir ardaloedd nad yw wedi eu cynnwys fel rhan o'r cynllun ail-ddatblygu diweddaraf ag felly fe welir fod ymlediad graddol o fywyd gwyllt a thyfiant naturiol wedi digwydd i amrywiol raddau o fewn yr ardaloedd hyn, yn enwedig felly o fewn y tyllau sylweddol sydd yn bodoli ag sydd wedi eu diogelu gan gyfres o ffensys i gadw'r cyhoedd allan. Gwelir hefyd datblygiadau diwydiannol safle Siemens ar ymylon safle Glyn Rhonwy yn ogystal a maes carafanau teithiol newydd, er y byddai'r fynedfa oddi ar yr A4086 yn cael eu rhannu gan holl ddefnyddwyr Glyn Rhonwy, ni fyddai'r safleoedd yma yn amlwg ddylanwadau ar y cynllun pwmpio o safbwynt cymharu nodweddion ag adeiladwaith presennol ag arfaethedig.

7.3.5 Mae'r datblygiad arfaethedig wedi ei leoli ar safle sydd yn ymestyn yn sylweddol o'i ddau begwn o safbwynt uchder. Mae'r tirlun ôl-ddiwydiannol yn golygu nad nodweddion cwbl naturiol sydd yn cael eu amharu ag mi fyddai'r datblygiad ffurfiol amlycaf gan gynnwys yr is-adeiledd arfaethedig, adeiladau, lonydd ac yn y blaen, wedi eu lleoli oddi mewn y llwyfannau sydd eisoes wedi cael eu creu ar gyfer ail-ddatblygiad arfaethedig Glyn Rhonwy. Mi fydd y safle ar ei amlycaf o gyfeiriad tiroedd uchel i'r gogledd a'r gogledd ddwyrain ar draws y dyffryn o bentrefi Dinorwig a Fachwen. Cydnabyddir y byddai'r datblygiad yn ystod y cyfnod adeiladau yn amlwg o'r cyfeiriad yma ag y byddai o'i gwblhau yn debygol o fod yn cynnwys elfennau ffurfiol newydd nas gwelir ar hyn o bryd. Er hynny, credir fod y pellter sydd yn bodoli rhwng y safle ag anheddiadau presennol, lleoliad yr elfennau mwyaf ffurfiol megis yr adeiladwaith o fewn y llwyfannau sydd eisoes wedi eu darparu yn ogystal a defnydd hanesyddol y safle yn golygu y byddai'r datblygiad yn gallu cymathu ag ymdoddi i mewn i'w leoliad ôl-ddiwydiannol.

7.3.6 Cydnabyddir y byddai'r datblygiad o raddfa fawr, ond ni chredir y byddai oherwydd ei ffurf a graddfa yn cael effaith andwyol gormodol ar y tirlun a'r tirwedd hanesyddol yn gyffredinol. Nid yw gwrthwynebiad wedi ei dderbyn o safbwynt ei effaith gweledol o gyfeiriad Parc Cenedlaethol Eryri gan awdurdod y parc, ni chredir felly fod pryder o safbwynt eu effaith ar mwynderau'r tiroedd gwarchoddedig yma.

7.3.7 O safbwynt ei effaith ar fwynderau gweledol preswylwyr cyfagos, mae anheddau presennol yn wasgaredig o fewn ardal gyfagos Glyn Rhonwy gyda rhai yn weddol agos i rannau o ffiniau'r safle. Er hynny, ni chredir y byddai effaith gormodol ar fwynderau gweledol yr anheddiadau yma oherwydd natur a ffurf y safle a'r tir oddi amgylch a lleoliadau gweddol guddiedig elfennau o'r gwaith megis gwaith o fewn y tyllau chwarel. Fel y nodir ym mharagraff 7.3.5 uchod, mi fyddai'r datblygiad ar ei amlycaf ar draws y dyffryn, yn sicr yn ystod y cyfnod adeiladau ag yn debygol o fod er i raddau llai, wedi ei gwblhau. Ond fel y nodwyd, tirlun ôl-ddiwydiannol sydd amlycaf yn yr ardal yma ag er fod gwerth amlwg i'r tirlun yma o safbwynt hanesyddol/diwylliannol, credir fod yr elfennau tebygol a ddaw o ganlyniad i'r datblygiad yma yn debygol o allu ymdoddi yn well mewn i'r math yma o dirlun yn hytrach na thirlun cwbl wyrdd heb ei ddatblygu. Ni chredir y byddai'r datblygiad yn amlwg o bentrefi Llanberis ag Waunfawr oherwydd ei leoliad a ffurf y tirlun ag felly ni chredir y byddai yn amharu ar fwynderau trigolion y pentrefi agosaf i'r safle i raddau annerbyniol hir dymor.

Cynllun Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy: Adroddiad Effaith Lleol

Cyngor Gwynedd Chwefror 2016

7.3.8 Mae'r safle yn cael ei amgylchynu gan fynyddoedd mwyaf Eryri megis Elidir Fawr a Fach, Moel Eilio, Glyder Fawr a Fach, Yr Wyddfa, Foel Gron ac yn y blaen. Mi fyddai'r datblygiad yn weladwy o rai o'r mynyddoedd hyn ond o ystyried y pellter rhwng y safle a'r mynyddoedd, ffurf a maint y datblygiad a'i osodiad o fewn y tirwedd ôl-ddiwydiannol hanesyddol presennol, ni chredir y byddai i'w weld yn amlwg ag i raddau annerbyniol o'r manau hyn. Yn yr un modd, ni chredir y byddai ardrawiad o ran yr effaith gweledol o gyfeiriad Castell Dolbadarn oherwydd ei leoliad, ffurf a gorwedd, pellter rhwng y ddau safle a phresenoldeb nodweddion megis adeiladau a choed rhwng y ddau safle.

7.3.9 Ni chredir y byddai'r cais DCO yn sylweddol wahanol i'r hyn a gyflwynwyd, ystyriwyd a chaniatawyd yn flaenorol trwy'r cais DCGT o safbwynt yr hyn a welir uwchben y ddaear ag felly yr hyn fyddai i'w weld o fewn y tirlun hanesyddol lleol. Ni fyddai'r hyn a fwriedir yn cael ei ystyried yn sylweddol fel y byddai yn arwain at newid asesiad LANDMAP o'r ardal leol o safbwynt dynodiadau tir.

Adeiladau

7.3.9 Nid yw yn gwbl wybyddus ar hyn o bryd beth fyddai dyluniad, graddfa a gorffeniad terfynol yr adeiladau arfaethedig fyddai'n gysylltiedig a'r datblygiad. Ategwyd amod ar y cais cynllunio a ganiatawyd o dan Deddf Cynllunio Gwlad a Thref er mwyn cytuno'r manylion hyn. Mae cynlluniau mynegol wedi eu cyflwyno fel rhan o'r cais DCO ond ni chredir fod safon y cynlluniau yma yn ddigonol i gyfleu gwir ddyluniad a gorffeniadau yr adeiladau i'w codi ar y safle ag y byddai oherwydd hynny, angen cyflwyno cynlluniau pellach cyn cael cytundeb neu ategu amod i'w cytuno arno yn ddiweddarach.

7.3.10 Credir y byddai lleoli'r adeiladwaith o fewn y llwyfan fel a fwriadwyd yn flaenorol yn dderbyniol ag yn cyd-fynd gyda defnydd bwriedig y llwyfannau diwydiannol hyn. Mae amod safonol yn cael ei weithredu gan y Cyngor i sicrhau fod toeau adeiladau newydd yn cael eu gorffen gyda llechen naturiol Gymreig neu gyda llechen o rinweddau a lliw tebyg. Mi fyddai'n ddymunol i adeiladwaith y safle gyfleu nodweddion a chymeriad a welir yn gyffredinol o fewn yr ardal gyfagos. Derbynir fod yr adeiladau arfaethedig yn gorfod bod yn ymarferol o ran eu swyddogaeth a defnydd, er hynny, credir fodd modd ymgorffori nodweddion cynhenid o fewn edrychiadau adeiladau amlycaf y safle. Mae gan y Cyngor ddyhead i sicrhau y byddai datblygiadau o safon a dyluniad uchel ag fe welir cyngor cyffredinol parthed dylunio yn cael ei gyfleu o fewn Canllaw Dylunio Gwynedd.

7.3.11 Er nad yn 'adeiladau' yng nghwir ystyr y gair, strwythurau amlycaf y datblygiad arfaethedig fyddai waliau'r cronfeydd a'r tomennydd gwastraff llechi yn deillio o'r gwaith twnelu. Mae'n debygol mai gorffeniad naturiol fyddai o fudd i sicrhau fod waliau'r cronfeydd yn ymdoddi i mewn i'r tirlun, unai trwy bridd a gwair (fel sydd eisoes wedi ei ddefnyddio yn llwyddiannus ar gronfa Marchlyn sydd yn ffurfio rhan o gynllun pŵer Dinorwig gerllaw)neu trwy defnyddio llechi er mwyn creu edrychiad fyddai'n debyg i domen llechi fel a welir yn gyffredinol o fewn yr ardal gyfagos. Ni chredir y byddai'r strwythurau yma o'u cwblhau i safon a gytunir, yn amharu ar fwynderau gweledol y tirlun lleol i raddau annerbyniol hir dymor.

Cynllun Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy: Adroddiad Effaith Lleol

Cyngor Gwynedd Chwefror 2016

Ardrawiad a digonolrwydd y cais/DCO

7.3.12 Mae graddfa a natur y datblygiad yn amharu i raddau ar gwir fanylion rhai agweddau o'r hyn a fwriedir megis dyluniad adeiladau a'u ymddangosiad a gosodiad o fewn y safle. Mi fyddai hyn yn arferol yn bosib i'w gyfleu fewn cyfres o "photomontages" addas ond er y trafodaethau sydd wedi eu cynnal rhwng y datblygwr a'r Awdurdod Cynllunio Lleol a bod cytundeb cyffredinol am yr hyn fyddai'n cael ei ystyried yn dderbyniol ar gyfer y datblygiad, nid yw hyn wedi llwyddo i'w wneud hyd yma. Er hynny, ag yn ddibynol ar gytundeb pellach am yr agwedd yma credir fod y gofynion sy'n berthnasol i faterion yn ymwneud a dylunio, yn dderbyniol a'i fod yn cydymffurfio gyda gofynion perthnasol y DCO er mwyn sicrhau fod dyluniad o safon derbyniol yn cael ei sicrhau ar gyfer y datblygiad arfaethedig sydd wedi ei leoli o fewn y tirwedd hanesyddol cydnabyddedig hwn. Mae'n debygol y bydd angen diwygiadau pellach i'r DCO mewn perthynas a manylion yr is-adeiledd angenrheidiol fyddai'n gysylltiedig a'r datblygiad arfaethedig.

7.4 Allryiadau ansawdd aer, sŵn a dirgryniad

Polisi Lleol

7.4.1 Polisi B33: datblygiadau sy'n creu llygredd neu boendod - Diogelu amwynderau dynol, ansawdd iechyd a'r amgylchedd naturiol neu adeiledig rhag lefelau uchel o lygredd.

Prif ystyriaethau lleol: Aer

7.4.2 Fel y cadarnhawyd gan Uned Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd gyda'r cais cynllunio blaenorol, mae gan y datblygiad arfaethedig y potensial i greu ardrawiad sylweddol ar anheddau a busnesau lleol o safbwynt nifer o ffactorau amgylcheddol.

7.4.3 Oherwydd hynny, roedd y gwasanaeth o'r farn y dylid cynnwys cyfres o amodau caeth fel rhan o'r caniatâd, fyddai yn sicrhau rheoli'r elfen yma (ag elfennau eraill) fel rhan o'r datblygiad arfaethedig. Ategwyd cyfres o amodau fel rhan o'r caniatâd (**ATODIAD 2**), yn benodol yn yr achos yma mae amodau rhif 24, 26, 27, 28, 29 a 30.

7.4.4 Credir fod modd rheoli'r datblygiad i raddau derbyniol trwy gyfres o amodau fel yr uchod, a thrwy hynny, lleihau effaith y datblygiad arfaethedig ar ansawdd aer yr ardal leol.

Prif ystyriaethau lleol: Sŵn a Dirgryniad

7.4.5 Yn yr un modd a'r sylwadau uchod, mae gan y datblygiad arfaethedig y potensial i greu ardrawiad sylweddol ar anheddau a busnesau lleol o safbwynt nifer o ffactorau amgylcheddol fel a gadarnhawyd gan Uned Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd.

7.4.6 Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd gyda'r cais blaenorol ynghyd a'r amodau a ategwyd i'r caniatâd yn cael eu ystyried yn dderbyniol ag yn cydymffurfio gyda safonau cyfredol. Er hynny, cydnabyddir y bydd adegau ble byddai sŵn adeiladu neu gefndirol yn ganfyddiadwy tros lefelau sŵn cefndirol presennol o'i fesur o adeiladau cyfagos.

Cynllun Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy: Adroddiad Effaith Lleol

Cyngor Gwynedd Chwefror 2016

7.4.7 Credir fod yr amodau a ategwyd i'r caniatâd blaenorol (**ATODIAD 2**) yn fodd derbyniol o reoli'r agwedd yma, sef amodau rhif 24, 33, 35, 36, 37, 38, 39, 40, 42, 43, 44, 45, 46 a 47.

7.4.8 Credir hefyd fod y rheolaeth tros oriau adeiladau fel a nodwyd trwy amod 25 yn berthnasol ag yn gyfraniad addas tuag at reolaeth derbyniol datblygiad fel yma (nodir yma fod angen i'r Awdurdod fod yn fodlon ynghylch yr angen am newid trefniadau gwaith ag na ddylid tybio y bydd caniatâd yn cael ei roi heb amheuaeth, mae'n debyg y bydd amrywiad yn cael ei gyflwyno o dan y Ddeddf Rheoli Llygredd 1974) ag y byddai trefniant tebyg yn dderbyniol trwy'r cais DCO pe byddai'n cael ei ganiatau sef:

- Bydd yr holl waith adeiladu a gweithgareddau cysylltiol sydd i'w glywed ar ffin y safle, neu unrhyw fan arall a gytunir gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w weithredu rhwng yr oriau canlynol yn unig:

7:00 awr a 19:00 awr ar Ddydd Llun i Ddydd Gwener

7:00 awr i 13:00 awr ar Ddydd Sadwrn, ac nid o gwbl ar Ddydd Sul a Gwyliau Banc

Bydd rhaid i unrhyw drosglwyddiadau a symudiadau o beiriannau, cyfarpar a gwastraff gymryd lle tu fewn i'r oriau a ganiatawyd fel y nodir uchod.

Nid yw'r amod yn berthnasol i waith twnelu ar y safle.

Bydd gweithdrefn ar gyfer unrhyw weithrediadau peirianyddol arbennig sydd angen eu gweithredu fel mater argyfwng tu allan i'r oriau a gytunir i'w sefydlu ac yn ddarostyngedig i gytundeb ysgrifenedig o leiaf 3 mis o flaen llaw unrhyw waith, gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

7.4.9 Yn ogystal a'r rheoliadau posib uchod, credir y bydd sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn berthnasol fel rhan o'r cais DCO ag y byddai angen trwyddedau ar gyfer rhai elfennau o'r gwaith arfaethedig gan gyrff megis CNC. Ystyrir y byddai rheolaeth trwy osod amodau fel a wnaed yn flaenorol, yn briodol fel rhan o'r DCO er mwyn sicrhau na fyddai effaith gwrthwynebus annerbyniol o ganlyniad i'r datblygiad. O ganlyniad, credir y byddai'r datblygiad arfaethedig yn bodloni gofynion cyffredinol polisi B33.

Ardrawiad a digonolrwydd y cais/DCO

7.4.9 Mae'r Cyngor eisoes wedi derbyn fod rheoliadau addas yn bosib ar gyfer y datblygiad arfaethedig yma yn y safle yma. Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd gan y datblygwr gyda'r cais DCO yn egluro sut byddai mesurau rheoli a lliniaru addas yn cael eu gweithredu yn ystod cyfnod y datblygiad.

Cynllun Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy: Adroddiad Effaith Lleol

Cyngor Gwynedd Chwefror 2016

7.4.10 Mae'r wybodaeth yma wedi cael ei ddarparu o fewn y Datganiad Amgylcheddol ag y byddai'n gallu cael ei weithredu trwy gytundebau ffurfiol (i'w cytuno) megis " Construction Traffic Management Plan, Dust Management Plan, Code of Construction Practice".

7.4.11 Cydnabyddir y byddai rheolaeth ar gael mewn perthynas a rhai agweddau o'r gweithrediadau ond y byddai amharu yn debygol o amharu ar adegau o ganlyniad i rai agweddau o'r gwaith yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae deddfwriaethau statudol ar gyfer rheoli poendod yn cael eu gweithredu, credir y byddai amodau a chytundebau megis yr hyn a nodir ym mharagraff 7.4.10 yn sicrhau rheolaeth dderbyniol o ran yr agweddau yma a bod grym yr awdurdod lleol i reoli'r sefyllfa yn cael ei gefnogi trwy bwerau statudol megis Safonau Prydeinig, Rheoliadau yn y Gwaith a Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990.

7.4.12 Mae angen sicrhau y byddai'r risg i'r amgylchedd a thrigolion lleol yn cael ei liniaru trwy fonitro a rheoli cyson ag effeithiol, o wneud hynny, credir y byddai'r datblygiad arfaethedig yn gallu bod yn dderbyniol ag na fyddai yn cael effaith niweidiol annerbyniol hir dymor ar yr ardal leol o agwedd materion yn ymwneud ag aer, sŵn a dirgryniad.

7.5 Ecoleg a Bioamrywiaeth

Polisi Lleol

7.5.1 Polisi B15 - Gwarchod safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd rhyngwladol - Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi niwed arwyddocaol i gyfanrwydd safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd rhyngwladol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i reoli, mwyhau a diogelu nodweddion cydnabyddedig safleoedd o'r fath.

Polisi B20 – Rhywogaethau a'u cynefinoedd sy'n bwysig yn rhyngwladol a chenedlaethol - Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi aflonyddwch neu niwed annerbyniol i rywogaethau a warchodir a'u cynefinoedd oni bai y gellid cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion cydnabyddedig y safle.

Prif ystyriaethau lleol: effaith ar ecoleg a bioamrywiaeth

7.5.2 Mae potensial y gallai'r datblygiad arfaethedig effeithio ar nifer o safleoedd sydd wedi eu gwarchod (fel a nodir ym mharagraff 2.2) yn ystod y cyfnod datblygu. Cyflwynir ceisiadau ar wahân i gyrff megis CNC ynglŷn a rhai agweddau o'r materion hyn gan gynnwys Trwydded Rhywogaethau wedi ei warchod, Trwydded mochyn daear, Trwydded echdyniad ac yn y blaen.

7.5.3 Mae'r pryder am effaith y datblygiad o safbwynt materion bioamrywiaeth o fewn pob ardal o safle eang y datblygiad arfaethedig yn amrywio. Gwelir fod y 'llwyfannau' sydd eisoes wedi eu datblygu ar ran isaf safle Glynrhonwy, wedi eu cwblhau yn weddol

Cynllun Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy: Adroddiad Effaith Lleol

Cyngor Gwynedd Chwefror 2016

ddiweddar ag y gellid disgrifio'r 'llwyfannau' hyn fel tir llwyd sef tir sydd eisoes wedi cael eu ddatblygu.

7.5.4 Credir fod yr arolygon a'r wybodaeth sydd eisoes wedi eu cynnal a'u cyflwyno wedi adnabod y prif rhywogaethau a allai gael eu effeithio gan y datblygiad arfaethedig. Mae Uned Bioamrywiaeth y Cyngor wedi gweithio yn agos gyda'r datblygwr yn ystod cyfnod y cais blaenorol ag yn ystod trafodaethau cychwynnol ynglŷn a'r cais DCO a bod dealltwriaeth o'r hyn fyddai'n ddisgwyliedig i'w cynnwys o fewn cynllun rheolaeth y safle. Ategwyd amodau ar y cais blaenorol fyddai'n gwarchod yr agweddau yma, sef:

- Rhaid darparu Datganiad Dull fel rhan o'r Construction Environmental Management Plan fydd yn manylu'n glir yr holl waith a gyfyngir yn ystod cyfnod bridio adar er mwyn osgoi amharu ar adar ar restr atodlen 1. Rhaid cyflwyno'r datganiad yn ysgrifenedig i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gytuno arno gyda Cyfoeth Naturiol Cymru cyn i'r datblygiad a ganiateir trwy hyn gychwyn.
- Rhaid darparu Datganiad Dull fel rhan o'r Construction Environmental Management Plan fydd yn manylu'n glir yr holl fesurau a gymerir (gan gynnwys yr hyn a fanylir yn rhan 8 a 9 o Adroddiad Arolwg Ymlusgiaid- Cambrian Ecological Partnership 07.02.12) er mwyn osgoi effaith niweidiol ar statws cadwraeth ffafriol rhywogaethau ymlusgiaid. Rhaid cyflwyno'r datganiad yn ysgrifenedig i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gytuno arno gyda Cyfoeth Naturiol Cymru cyn i'r datblygiad a ganiateir trwy hyn gychwyn.

7.5.5 Mae sensitifrwydd y safleoedd sydd wedi eu gwarchod yn amlwg yn fater sydd angen ei gynnal gan fod pryder wedi ei amlygu am effaith y datblygiad ar Lyn Padarn (SSSI) sydd yn cynnwys pysgodyn prin y Torgoch. Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd o fewn y Datganiad Amgylcheddol yn cadarnhau na fydd effaith arwyddocaol ar y safleoedd hyn yn ogystal a nifer o safleoedd eraill sydd yn cael eu nodi yn ogystal a rhywogaethau sydd wedi eu gwarchod gan gynnwys ystlumod Yn ogystal, mae llwybr effaith posib o'r datblygiad i'r Afon Gwyrfai, sydd yn Safle Ewropeaidd (Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Gwyrfai Llyn Cwellyn) gyda'r potensial i effeithio ar eogiaid, sydd yn un o'i nodweddion. Trwy gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, dangoswyd na fyddai effaith oherwydd y mesurau lliniaru oedd i'w rhoi mewn lle..

7.5.6 Mae Uned Bioamrywiaeth y Cyngor eisoes wedi derbyn ag ystyried effaith tebygol y datblygiad yma ar faterion ecolegol a bioamrywiaeth. Yn yr un modd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi ystyried yr effaith ar y materion hyn. Ni chredir fod y cais DCO yn sylweddol wahanol o ran ei effaith ar y materion yma o'r hyn a ystyriwyd yn flaenorol. Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd, yr angen am drwyddedau pellach a rheolaeth cyffredinol fydd ei angen trwy fesurau lliniaru a chytundebau ffurfiol yn parhau i ddiogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd sydd wedi eu gwarchod.

Cynllun Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy: Adroddiad Effaith Lleol

Cyngor Gwynedd Chwefror 2016

7.5.7 Mi fyddai rheolaeth tebyg i'r hyn a gytunwyd ar y cais blaenorol, pe byddai yn cael ei ystyried yn dderbyniol, yn berthnasol yn yr achos yma, a thrwy sicrhau cyfres o fesurau lliniaru a monitro cyson, fod modd sicrhau yr agwedd yma.

Ardrawiad a digonolrwydd y cais/DCO

7.5.8 Mae effaith y datblygiad arfaethedig a benderfynwyd o dan DCGT wedi ei asesu yn llawn gan Uned Bioamrywiaeth y Cyngor a Cyfoeth Naturiol Cymru. Ni chredir fod yr hyn a fwriedir o dan y cais DCO yn codi pryderon cwbl newydd a sylweddol o'r hyn a ystyriwyd yn flaenorol. Ategwyd amodau a mesurau lliniaru gyda'r cais blaenorol er mwyn rheoli'r agwedd yma i raddau derbyniol.

